Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Ystyriaethau dros ddatganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru

| Ystyriaethau ymarferol | MoU | Cyfrifoldeb gweithredol | Datganoli deddfwriaethol |
|---|---|---|---|
| **Gweithlu** | Y cyfrifoldeb yn parhau gyda HMPPS. | Byddai'n dod yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru, a byddai staff prawf yn cael eu trosglwyddo i gorff newydd. | Drwy Ddeddf y Senedd, gallai hyn ddod yn gyfrifoldeb i Weinidogion Cymru, a byddai staff prawf yn cael eu trosglwyddo i gorff newydd. |
| **Llywodraethu rhanbarthol** | Y cyfrifoldeb yn parhau gyda HMPPS. | Y gallu i ystwytho llywodraethu rhanbarthol neu newid i fodel gwahanol. | Byddai'r Senedd yn cael rheolaeth lawn dros strwythur, cyflawni a llywodraethu'r gwasanaeth prawf yng Nghymru a gallai ddeddfu i gyflawni swyddogaethau prawf drwy gorff newydd neu gorff sy'n bodoli eisoes. |
| **Rheolaeth a goruchwylio** | Y cyfrifoldeb yn parhau gyda HMPPS. Rheolaeth gyfyngedig gan Lywodraeth Cymru o ran cydgomisiynu gwasanaethau. | Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am reolaeth weithredol, ond gall y gwaith o oruchwylio, rheoleiddio ac arolygu barhau fel y maent ar hyn o bryd. Os caiff rheoliadau'r gweithlu eu newid, byddai hyn yn gofyn am gofrestr broffesiynol newydd neu gorff rheoleiddio Cymreig newydd. | Gallai'r Senedd wneud darpariaethau mewn perthynas â rheolaeth a goruchwylio gweithredol a deddfwriaethol. Byddai angen sefydlu cyrff goruchwylio, rheoleiddio ac arolygu newydd, neu ddefnyddio trefniadau presennol. |
| **Cyllid** | Yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i lywodraeth y DU/HMPPS. Mae angen rhywfaint o gapasiti ychwanegol yn Llywodraeth Cymru. | Swyddogaethau cost gweithredol wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru fel rhan o'r grant bloc. Angen capasiti ychwanegol ar gyfer cymorth gweinyddol a sefydlu uned Llywodraeth Cymru. | Costau wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru fel rhan o'r grant bloc ochr yn ochr, yn dibynnu ar drafodaethau, â rhywfaint o gyllid ar gyfer costau cychwyn cyrff newydd. Mae'n debygol y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau newydd, gwella capasiti, a gweithredu strwythurau llywodraethu o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru. |
| **Rhyngweithio â gwasanaethau a chyrff datganoledig/wrth gefn** | Dim newid, ond gallai cydgomisiynu ganiatáu mwy o aliniad a chydgysylltu â gwasanaethau datganoledig. | Yn caniatáu ar gyfer mwy o gydgysylltu â gwasanaethau datganoledig. Bydd angen sefydlu perthnasoedd ffurfiol gyda gwasanaethau a llysoedd a gadwyd yn ôl. | Yn caniatáu ar gyfer llawer mwy o gydgysylltu ac integreiddio posibl â gwasanaethau datganoledig. Byddai angen cytuno ar berthnasoedd ffurfiol, gan gynnwys unrhyw rôl mewn llywodraethu, a darparu ar eu cyfer â gwasanaethau a llysoedd a gadwyd yn ôl (drwy ddeddfwriaeth Senedd y DU yn ôl pob tebyg). |
| **Materion trawsffiniol** | Dim newid. | Bydd angen dod i gytundeb ar drosglwyddo carcharorion a materion trawsffiniol eraill. | Bydd angen dod i gytundeb ar drosglwyddo carcharorion a materion trawsffiniol eraill. |
| **Gweledigaeth tymor hir** | Gallu cyfyngedig i ddylanwadu ar gyflawni a gwerthoedd trwy gydgomisiynu gwasanaethau. | Mae gallu i newid diwylliant a gwerthoedd sefydliadol yn bodoli, ond ni fyddai rôl y gwasanaeth prawf yn gallu cael ei newid gan Weinidogion Cymru. | Y gallu i'r Senedd, neu gorff a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth Gymreig, o bosibl addasu diwylliant sefydliadol, gwerthoedd, ac (i ryw raddau) natur gwaith prawf. Mae dedfrydu, dedfrydau o garchar a di-garchar, a gofynion prawf a nodir gan y llysoedd yn parhau y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru. |